(Ebrill 2022- Rhagfyr 2023)

| **Cwestiwn 1. Hybu a hyrwyddo** |
|---|
| Sut mae eich adran yn mynd y tu hwnt i gynnig gwasanaethau yn ddwyieithog ac yn cyfrannu at amcanion y strategaeth iaith sirol (pa weithgareddau a phrosiectau sydd wedi eu cynnal yn ystod y flwyddyn ddiwethaf sydd yn codi statws y Gymraeg a sicrhau cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned)?<br><br>Mae strategaeth iaith y Cyngor yn gosod blaenoriaethau ar gyfer hybu'r Gymraeg mewn pum maes:<br>1. Iaith y teulu,<br>2. Iaith dysgu,<br>3. Iaith gwaith a gwasanaeth,<br>4. Iaith y gymuned<br>5. Ymchwil a Thechnoleg<br><br>Mae'r strategaeth gyfredol i'w gweld yma:<br>https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Dogfennau-Cyngor/Strategaethau-a-pholisiau/Cynllun-iaith/Cynllun-Hybu'r-Gymraeg-yng-Ngwynedd-2018-2023.pdf |
| **Ateb:**<br><br>**Gweithgareddau Menter Iaith Gwynedd**<br>Cartrefir Menter Iaith Gwynedd gan yr Uned Iaith a Chraffu, sy'n rhan o'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith, a hwy sydd wedi bod yn arwain ar gynyddu defnydd cymunedol o'r Gymraeg gan ganolbwyntio yn bennaf ar ardal Bangor/Dyffryn Ogwen, Y Bala a Phen Llyn.<br><br>Ebrill 2022 - Mawrth 2023<br>Yn ystod y cyfnod dan sylw canolbwyntiwyd ar ddenu grantiau newydd a chodi incwm, gwella'r cyswllt cymunedol, denu mwy o aelodau cymunedol i'r Grŵp Strategol a gweithio tuag at fod yn endid annibynnol. Bu'r fenter yn rhan o gais cenedlaethol rhwydwaith mentrau iaith Cymru, Haf o Hwyl. Llwyddwyd i ddenu £12,000 i Wynedd a gyda'r arian cynhaliwyd 24 o ddigwyddiadau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd gyda dros 350 yn mynychu. Uchafbwynt oedd digwyddiad i deuluoedd o'r Wcráin yng Nglan Llŷn. Rhoddwyd hefyd gefnogaeth i ddysgwyr drwy drefnu cyfleoedd cymdeithasu a chefnogaeth i gymunedau cynnal grwpiau cymdeithasol i ddysgwyr eu hunain. Trefnwyd 14 o deithiau cerdded i siaradwyr newydd yn ogystal â gweithgarwch parhaus eraill megis peint a sgwrs, paned a moidyr a chlwb rhedeg yn ym Mangor.<br><br>Cryfhawyd y cydweithio efo'r adran addysg gan gynnwys rhoi cyflwyniadau i rieni disgyblion sydd yn y canolfannau trochi a'u cyflwyno i iaith a diwylliant Gwynedd. Mae'r fenter hefyd bellach yn rhan ganolog o Cymunedoli sef rhwydwaith newydd mentrau cymunedol Gwynedd- Cymunedoli ac yn arwain ar gefnogaeth gyda'r Gymraeg ar gyfer grwpiau/mudiadau cymunedol. Cafwyd hefyd gyfle i gydweithio gyda Menter Môn a chwmni marchnata Aqua i greu pecyn 'Defnyddia'r Gymraeg yn dy Fusnes" ar gyfer busnesau er mwyn rhoi arweiniad i fusnesau ar pam a sut i ddefnyddio'r Gymraeg<br><br>Ebrill 2023 – Rhagfyr 2023<br><br>Parhawyd gyda threfniadau newid y fenter iaith drwy gofrestru Menter iaith Gwynedd fel cwmni nid er elw gyda Thŷ'r Cwmnïau gyda 4 o wirfoddolwyr o'r grŵp arweiniol yn gyfarwyddwyr ar y fenter newydd. :Lansiwyd y fenter iaith ar ei newydd wedd yn Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd yn Awst 2023. |

Cynhaliwyd digwyddiad digidol “Cymhathu Cymunedol” i geisio denu mwy o siaradwyr Cymraeg i roi o’u hamser i gefnogi dysgwyr yn eu cymunedau. Cefnogodd y fenter stondin Cymunedoli (rhwydwaith Mentrau Cymunedol Gwynedd) yn yr eisteddfod a sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru iddynt. Cefnogwyd hefyd yr Eisteddfod Genedlaethol drwy gynnal brecwast busnes i fusnesau ym Mhwllheli a mynd o amgylch busnesau bro’r Eisteddodd gyda’r pecyn ‘Defnyddio’r Gymraeg yn dy Fusnes.

Mae’r fenter wedi bod yn rhan o geisiadau cyllid amrywiol i gronfa her Arfor ar y cyd gyda MSparc, Llety Arall a Menter Felinheli ac yn bwriadu datblygu cais i gronfa Gwirfoddoli y WCVA. Parhawyd y cydweithio gyda’r adran addysg drwy gyd-drefnu ymweliadau i ysgolion uwchradd a cynradd Pen Llŷn i ymgynghori gyda staff a disgyblion er mwyn cynllunio ymyraethau i gynnydd defnydd o’r Gymraeg.

Cefnogwyd cymuned Mynydd Llandygai i gynyddu defnydd y Gymraeg yn yr ardal drwy gydweithio gyda phwyllgor y neuadd gymunedol i greu rhaglen o ddigwyddiadau fydd yn tynnu newydd ddyfodiad i mewn at yr Iaith. Rhoddwyd sylw hefyd i gynyddu cyfleoedd cymdeithasu yn y Gymraeg i bobl ifanc drwy gyd- gyllido swydd ‘swyddog cymunedol’ gyda’r adran ieuenctid a’r Urdd (yn gyflogedig gan yr Urdd). Mae’r Swyddog wedi canolbwyntio ar gychwyn aelwydydd newydd i blant a phobl ifanc oed uwchradd yng Nghaernarfon, Felinheli a Blaenau Ffestiniog a chynlluniau ar y gweill i wneud ym Mangor, Bala a Phen Llŷn.

**Prosiect Gwarchod Enwau Lleoedd**

Nod y prosiect Gwarchod Enwau Lleoedd yw ymateb i’r pryder fod enwau llefydd cynhenid Cymreig yn diflannu o dirlun Gwynedd o ganlyniad i ddiffyg defnydd o’r enwau Cymraeg a'r cynnydd mewn ail enwi llefydd yn Saesneg. Dros y flwyddyn ddiwethaf mae sylw wedi ei roi i’r enwau’r Cyngor, Tai, Strydoedd a dylanwadu ar eraill. Cafwyd arweiniad hefyd gan y Tîm Arweinyddiaeth i edrych yn benodol ar newid enwau strydoedd Gwynedd er mwyn cael gwared ar enwau Saesneg. Yn dilyn yr arweiniad cyflwynwyd bid ariannol lwyddiannus ym mis Tachwedd i ariannu’r gost o newid yr arwyddion. Lluniwyd rhaglen waith hir dymor i fapio'r camau sydd angen eu hystyried ar gyfer yr elfen enwau strydoedd a newid arwyddion gan gynnwys sefydlu dealltwriaeth o’r sefyllfa gyfreithiol, gwirio cofnodion y gofrestr enwau strydoedd a faint o strydoedd sydd heb arwyddion ar hyn o bryd. Yn sgil gwaith ymchwil pellach ar newid enwau strydoedd mewn dwy ardal beilot mae nifer o gymhlethdodau wedi eu hamlygu. Cyn bwrw ymlaen mae angen eglurder cyfreithiol ar nifer o faterion yn ogystal â thrafodaeth gydag adrannau eraill sydd ynghlwm gyda'r gwaith o safbwynt adnoddau a gweithredu pellach.

Mabwysiadwyd Polisi Iaith sy’n cynnwys nifer o gymalau newydd yn ymwneud efo gwarchod enwau Cymraeg ac yn rhoi arweiniad i staff ddefnyddio enw Cymraeg y Cyngor yn unig ac enwau strydoedd a phentrefi Cymraeg yn unig wrth ohebu. Cyhoeddwyd pytiau ysgafn achlysurol am enwau lleoedd mewn pyst ar y cyfryngau cymdeithasol a nifer erthyglau byr ‘Enw a’r Hanes’ ar y fewnrwyd staff er mwyn codi ymwybyddiaeth o ystyr enwau lleol. Cafwyd sylw i’r prosiect hefyd drwy sgyrsiau ar Radio Cymru. Rhoddwyd hefyd gyngor ynghylch ar **43** cais newid enw tŷ yn ystod y flwyddyn. Cychwynnwyd ar adolygiad o systemau TG i wirio bod pob system sydd yn anfon gohebiaeth yn awtomatig yn gallu defnyddio cyfeiriadau Cymraeg yn unig a chreu.

Parhaodd y gwaith o boblogi map enwau lleoedd gyda bron i 550 o enwau lleol ar nodweddion wedi eu cofnodi erbyn diwedd Mawrth 2023 a 9 gweithdy wedi ei gynnal gydag ysgolion lleol. Cynhaliwyd nifer o gyfarfodydd gyda phartneriaid allweddol, gan gynnwys trafodaethau gyda’r Arolwg Ordnans, Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd y Gymraeg ynghylch enwau lleoedd. Yn sgil hynny cafwyd

deddfwriaeth i roi'r hawl i bentrefi a threfi gael arwyddion 'Croeso' uniaith Gymraeg am y tro cyntaf a gwelwyd sefydlu fforwm cenedlaethol dan arweiniad Llywodraeth Cymru.

Ymchwiliad Craffu
Bu'r uned Iaith a chraffu yn arwain yr ymchwiliad craffu 'Beth yw'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn ein hysgolion uwchradd a pha gynlluniau sydd mewn lle i gynyddu'r ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5 yng Ngwynedd'.

Prosiect 15
Lluniwyd rhaglen waith ar gyfer Prosiect 15, sef cynllun sy'n annog mwy i drafod y byd a'i bethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Penderfynwyd canolbwyntio ar geisio cynyddu defnydd plant a phobl ifanc o'r Gymraeg ar y cyfryngau cymdeithasol a chreu cynnwys Cymraeg. Penodwyd Swyddog prosiect cynorthwyol dros dro ac er mwyn codi proffil y prosiect ymhlith pobl ifanc gwnaed ymdrech i gysylltu â chynnig cydweithio gyda nifer o bartneriaid sy'n ymwneud gyda phlant a phobl ifanc megis Gwasanaeth Ieuenctid, Ffermwyr Ifanc , ysgolion uwchradd ac undebau myfyrwyr.

Cynhaliwyd gweithgareddau a chystadlaethau amrywiol gan gynnwys rhai ynghlwm gydag Eisteddfod Genedlaethol. Cwpan Rygbi'r Byd, Wythnos y Glas, Cymry Arloesol, Ffeithiau Diddorol a'r Nadolig. Llwyddwyd hefyd i gynnal gweithdy creu cynnwys digidol Cymraeg ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol ar gyfer 70 o ddisgyblion uwchradd blwyddyn 9 ac un clwb ieuenctid.

**Gweithgareddau eraill**

- Sefydlu Fforwm Iaith Gwynedd
    - Yn dilyn gweithdy gyda chynrychiolwyr o sefydliadau a mudiadau ar draws y sir sefydlwyd
    - Fforwm Iaith Gwynedd. Prif nod y Fforwm y cydweithio er mwyn cynyddu defnydd o'r Gymraeg yn y sir ac osgoi dyblygu.

- Map Gweithgareddau cyfrwng Cymraeg
    - Lansiwyd map digidol gweithgareddau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael yng Ngwynedd.

- Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd
    - Trefnwyd a chydlynwyd digwyddiadau ym mhabell Cyngor Gwynedd o dan y thema Gwynedd Gymraeg. Roedd yr arlwy yn cynnwys paneli trafod enwau llefydd a chysylltiad economi ac Iaith, sesiwn banel merched sy'n ysbrydoli, gweithdai celf, cystadleuaeth clip ffilm 15 eiliad Prosiect 15, sesiwn ar fap enwau llafar a map digidol gweithgareddau cyfrwng Cymraeg Cyngor Gwynedd.

- Cydweithio ac Ymchwil
    - Mae'r uned wedi bod yn cydweithio gyda Phrifysgol Bangor ar ddau ddarn ymchwil. Astudiaeth beilot, ar raddfa fach, yn archwilio i ddatblygiad cymunedol, economaidd ac ieithyddol yng nghyd-destun dyfarniad diweddar y bröydd llechi fel Safle Treftadaeth y Byd yw un. Y nod yw cael mewnwelediad cychwynnol i rai o'r heriau, a'r cyfleoedd, a all godi yn sgil y dynodiad ar gynaladwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith. Mae'r llall yn edrych ar ddewis iaith y cyhoedd a'i hagwedd at y Gymraeg wrth ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus. Gan fod y Cyngor yn rhan o Is-grŵp y Gymraeg Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn cafwyd cyfle hefyd i fod yn rhan o brosiect a oedd yn edrych ar ddewis iaith y cyhoedd mewn

gwahanol dderbynfeydd ar draws y ddwy sir ac ymchwilio i ymyraethau posib er mwyn annog mwy o bobl i ddefnyddio ein gwasanaethau drwy'r Gymraeg.

- **Ceisiadau gwiriadau DBS Safonol**
  - Mae'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) wedi datblygu ffurflen electroneg ar lein drwy gyfrwng y Gymraeg i'r math gwiriad Sylfaenol**.** Mae'r datblygiad yma yn rhoi y cyfle i pawb sydd angen cwblhau gwiriad o'r math Sylfaenol i fod yn cael cwblhau y ffurflen drwy'r Gymraeg.

- **Cefnogi prentisiaid gymhwyso trwy'r iaith Gymraeg**
  - Mae diffyg darpariaeth hyfforddiant dwyieithog o safon yn parhau i fod yn rhwystr ar gyfer ein **Prentisiaethau**, yn enwedig felly ar gyfer prentisiaethau uwch. Mae'r Cynllun lleol yma o fewn y Cyngor yn un hynod lwyddiannus, yn cynnig cyfleoedd profiad gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 27 prentis yn rhan o gynllun y Cyngor ar hyn o bryd, a phob un o'r rheiny wedi arwyddo'r "Datganiad o Uchelgais Iaith Gymraeg", yn ogystal a'r darparwyr. Fel rhan o'r Cynllun, mae swyddogion o wasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad yn ceisio dwyn perswâd ac annog darparwyr prentisiaethau i gynnig cymaint o'u darpariaeth ag sy'n bosib trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gwaith wedi digwydd i asesu'r sefyllfa o ran cyfrwng iaith y ddarpariaeth addysgol a gynigir, a bydd cynllun gwaith yn cael ei lunio i gyfarch rhai o'r materion sydd wedi codi.
  - Fel enghraifft, daeth prentis atom drwy ei rheolwr eleni yn bryderus nad oedd modd iddi ddilyn ei chwrs drwy gyfrwng y Gymraeg yng Ngholeg Llandrillo Menai. I ddechrau, cafodd diwtor di-Gymraeg a toedd adnoddau'r cwrs ddim ar gael yn Gymraeg, na hyd yn oed gyfieithiadau ohonynt – yn groes i'r hyn a addawyd. Aethom a'r achos gerbron Cyfarwyddwr Dysgu Seiliedig ar Waith a bellach mae'r prentis wedi cael yr holl elfennau drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wedi ymrwymo i gadw llygad manwl ar y sefyllfa i sicrhau bod y prentis yn cael yr hyn sy'n ddyledus iddi, sef cael astudio'n gyfan gwbl yn y Gymraeg.

- **Dynodiadau Iaith**
  - Mae'n waith parhaus i **Hybu'r Defnydd o'r Gymraeg o fewn Gwasanaethau'r Cyngor,** ac rydym yn ymwybodol bod angen parhau i gynnal sgiliau iaith ein staff. Mae'r prosiect dynodiadau iaith wedi dod i derfyn ers diwedd Mawrth 2023, ond mae'r gwaith o gasglu hunan asesiadau iaith gan staff yn parhau. Mae'r gwaith hwn bellach yn rhan o waith dydd i ddydd ac i raddau helaeth yn hunan gynhaliol erbyn hyn oherwydd bod systemau a threfniadau wedi eu rhoi mewn lle i sicrhau fod staff ar draws y Cyngor yn cwblhau yr hunan asesiad. Mae'r fforwm dynodiadau iaith yn parhau i gyfarfod yn chwarterol. Mae cyfle i bob Adran rannu a nodi unrhyw heriau.
  - Bydd y gwaith o drefnu a darparu hyfforddiant iaith i staff yn parhau. Mae nifer o gyrsiau allanol ar gael i staff y Cyngor ddatblygu eu sgiliau iaith a magu hyder i'w defnyddio yn y gweithle. Bydd yr aelodau o staff nad ydyn nhw'n cyrraedd

dynodiadau iaith eu swyddi yn derbyn blaenoriaeth, ynghyd â staff rheng flaen. Bydd sylw pellach yn cael ei roi i ddatblygu ein hyfforddiant iaith mewnol hefyd.

**Cwestiwn 2. Materion Polisi a Safonau**

i. Sgiliau iaith staff – nifer siaradwyr Cymraeg a dysgwyr o fewn yr adran (data diweddaraf Dynodiadau Iaith).

ii. Rhwystrau - oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg (h.y. gweithredu ar ofynion y Polisi Iaith a Safonau'r Gymraeg)?

iii. Canmoliaeth a Chwynion – rhowch wybodaeth am unrhyw ganmoliaeth neu gwynion mae'r adran wedi eu derbyn yn ystod y flwyddyn am wasanaethau Cymraeg/dwyieithog.

**Ateb:**

**Asesu effaith**

Erbyn hyn defnyddir templed asesu effaith integredig ar gyfer prif benderfyniadau a phrosiectau'r Cyngor o ganlyniad i waith yr Ymgynghorydd Cydraddoldeb a'r Ymgynghorydd Iaith. Mae darn penodol am y Gymraeg yn y templed.

**Polisi Iaith**

Mabwysiadwyd fersiwn diwygiedig o'r polisi Iaith yn Hydref 22 er mwyn adlewyrchu dulliau gweithredu hynny ac uchelgais cyfredol y Cyngor o ran hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg yn ei wasanaethau. Roedd teimlad nad oedd rhai rhannau o'r Polisi yn rhoi arweiniad digon clir a chadarn i staff, ac nad oedd yn cwmpasu'r holl sefyllfaoedd y mae gwasanaethau yn delio gyda nhw o ddydd i ddydd.

Addaswyd a chryfhawyd yr Amcanion ac Egwyddorion cyffredinol ar ddechrau'r polisi ac ychwanegwyd cymalau newydd yn cynnwys un am arddel enw Cymraeg y Cyngor yn unig, ac un yn amlygu cyfrifoldeb y Cyngor i asesu effaith penderfyniadau. Gwnaed newidiadau i adran 5, Gwasanaethau digidol - gwefan, apiau a hunanwasanaeth er mwyn rhoi gwell arweiniad i staff am ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwahanol ffyrdd y defnyddir technoleg yng ngwaith y Cyngor. Roedd yr arweiniad oedd yn cael ei roi am ddefnyddio'r Gymraeg mewn technoleg yn y Safonau, ac yn sgil hynny'r Polisi blaenorol, yn brin iawn, a chan fod y Cyngor wedi bod yn datblygu mwy o wasanaethau ar-lein ac yn dibynnu mwy ar systemau TG, roedd angen addasu'r polisi i adlewyrchu hynny. Ychwanegwyd nifer o gymalau newydd i adran 6 - arwyddion i adlewyrchu amcanion prosiect blaenoriaeth y Cyngor Prosiect Enwau Llefydd Cynhenid Cymreig ac ymrwymiad y Cyngor i warchod enwau lleoedd Cymraeg. Yn sgil gwaith sylweddol a waned gyda phrosiect Dynodiadau Iaith i ddatblygu trefniadau asesu sgiliau iaith ar draws y Cyngor, addaswyd adran 14 - hysbysebu Swyddi a'r broses hysbysebu. Ychwanegwyd hefyd adran newydd sef adran 15 - atebolrwydd er mwyn nodi yn glir pwy sydd yn atebol i'r polisi a beth yw cyfrifoldeb yr Aelodau Etholedig ac aelodau'r Pwyllgor Iaith.

**Strategaeth Iaith Gwynedd 2023 - 2033**

Mabwysiadwyd strategaeth Iaith newydd yn Rhagfyr 2023. Bydd y gwaith o lunio a datblygu'r rhaglen waith yn digwydd law yn llaw gyda phenaethiaid yn ystod 2024 a'r hyn a fydd yn cael ei gyflawni yn ddibynnol ar adnoddau.

**Canmoliaeth**

Derbyniodd y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith ganmoliaeth am y gallu i barhau i gynnal cyfarfod ffurfiol ac anffurfiol hybrid yn ddwyieithog llwyr ac am safon y gwasanaeth.

**Hyfforddiant staff**

Mae'r niferoedd staff canlynol wedi mynychu hyfforddiant sgiliau iaith tros y flwyddyn.

- Cyrsiau **Dysgu Cymraeg Gogledd Orllewin** a **Nant Gwrtheyrn** : 46
- **Cyrsiau comisiwn**: **Tystysgrif Sgiliau Iaith** (lefel Gloywi - mewnol) : 16
- Staff Cartref Llys Cadfan, Tywyn (lefel Mynediad) : 10

I gefnogi y rhai sy'n dysgu Cymraeg, mae'r Cyngor yn cynnig y cynllun cyfeillion, sef cynllun 'bydi' Cymraeg ble fo 9 o staff rhugl yn gwirfoddoli eu hamser fel mentoriaid i helpu staff sy'n dysgu.

Mae'r Cyngor yn arwain y ffordd ar ddarpariaeth hyfforddiant cyfrwng y Gymraeg i staff mewn ystod eang o feysydd ac yn gwthio y ffiniau yn barhaus. Un enghraifft o hyn yw y modiwlau E-Ddysgu Iechyd a Diogelwch sydd wedi eu datblygu yn fewnol. Maent yn fodiwlau o ansawdd uchel sydd wedi ei datblygu yn y Gymraeg. Nid yn unig fod ymrwymiad i fod pob un o staff y Cyngor yn cwblhau y modiwlau hyn, ond mae'r Cyngor bellach yn cael ymholiadau gan sefydliadau allanol i gael eu prynu ar gyfer staff o'u sefydliadau hwy, gan eu bod yr unig rai i gael i fod ar gael yn y Gymraeg. Pa well hysbyseb na'r ffaith fod neb llai na'r Comisiynydd y Gymraeg newydd fuddsoddi yn y modiwlau ar gyfer holl staff eu sefydliad nhw. Mae'r modiwlau Iechyd a Diogelwch yn ran o becyn llawer ehangach o fodiwlau E-Ddysgu sydd wedi eu datblygu yn fewnol ac maent bellach yn cael eu cynnig yn fasnachol i gyrff eraill. Bydd hyn yn helpu codi ansawdd a hybu'r defnydd o'r Gymraeg mewn sefydliadau ar draws hyd a lled Cymru.

Mae enghreifftiau niferus ble mae'r Cyngor yn gwthio ffiniau a pherswadio hyfforddwyr allanol i ddatblygu pecynnau hyfforddi Cymraeg. Daeth enghraifft yn ddiweddar ym maes hyfforddiant Craffu i Aelodau Etholedig ple bu gweithio ar y cyd â'r WLGA i ganfod datrysiad i ddiffyg hyfforddwyr Cymraeg yn y maes.

Serch hyn mae'n holl bwysig amlygu rhwystr sy'n dod i'r wyneb yn aml fod rhai meysydd arbenigol iawn eu natur, a rhai o rheiny yn feysydd cwbl hanfodol, ple nad oes **unrhyw** hyfforddwyr Cymraeg ar gael er gwaethaf ymdrechion dwys.

**Cwestiwn 3. Cyfleoedd Datblygu**

Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?

**Ateb:**

Rydym yn bwriadu datblygu hyfforddiant cadernid defnyddio Iaith i staff, plant a phobl ifanc a grwpiau cymunedol yn y dyfodol.  Gobeithir hefyd y bydd modd i bartneriaid sy'n rhan o Fforwm Iaith Gwynedd ddatblygu prosiect newydd dros y flwyddyn nesaf a fydd o gymorth i gynyddu defnydd o'r Gymraeg.